

PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MAWRTH, 4 MEHEFIN 2024

PRESENNOL Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	J.K. Howell	A.C. Jones
M.J.A. Lewis	A. Leyshon	B.D.J. Phillips	R. Sparks
G.B. Thomas	M. Thomas	D.E. Williams	

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 11.30 yb - 12.55 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Cooper, T. Davies, M. Donoghue, J. James, E. Skinner a S. Williams

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/06309	<p>Amrywio Amod 2 (o gais W/35339) er mwyn newid cynlluniau i gynnwys ramp mynediad diwygiedig a newidiadau i annedd.</p> <p>Cyn ystyried y cais, derbyniwyd cais gan y cynghorydd lleol i ohirio ystyried y cais er mwyn cynnal ymweliad safle arall er mwyn galluogi'r Pwyllgor i weld y datblygiad o ardd gefn gwrthwynebydd ar y sail nad oedd mynediad yn bosibl y bore hwnnw oherwydd camddealltwriaeth rhyngddi hi a'r gwrthwynebydd</p>
-----------------	---

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Dyweddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, gan fod yr ymweliad safle wedi'i gynnal yn unol â'r protocol cynllunio, nad oedd unrhyw reswm cyfreithiol y gellir ei gyfiawnhau dros ohirio'r cais i gynnal ymweliad safle arall.

Yn dilyn pleidlais:

PENDERFYNWYD peidio â chaniatáu'r cais a ddaeth i law i ohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle arall a bod y Pwyllgor yn bwrw ymlaen i ystyried a phenderfynu ar y cais.

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Datblygu at yr ymweliad preifat â'r safle gan y Pwyllgor yn gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 3.2 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio oedd wedi ei gynnal ar 28 Mawrth 2024) er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor asesu effaith lawn y cais.

Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r cynnig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisiau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedodd fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymhell cymeradwyo'r cais yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad ac unrhyw amodau eraill sy'n ofynnol gan y Pwyllgor.

Cafwyd sylwadau gan ddau wrthwynebydd i'r cais yn ailbysleisiai'r pwyntiau gwrthwynebu yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, a oedd yn cynnwys;

- Roedd y datblygiad, gan ei fod wedi ei adeiladu ar dir uwch o gymharu â'r eiddo cyfagos, yn tynnu sylw ato'i hun ac yn ymwithiol, gan effeithio'n niweidiol ar breifatrwydd, amwynder a mwynhad yr eiddo hynny a'u gerddi cefn gan ei fod yn edrych drostynt.
- pe gydymffurfiwyd â'r cynllun gwreiddiol, ni fyddai gan gymdogion unrhyw wrthwynebiadau.
- effaith andwyol ar iechyd cymdogion a'u llesiant.
- cafodd y gwelliannau eu gwneud heb ganiatâd cynllunio ac felly ni ddylid rhoi caniatâd a dylid gwaredu'r elfennau anawdurdodedig.
- Diffyg ymgynghoriadau ar y newidiadau i'r cais gwreiddiol yn 1999.

Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf